# SL(6)042 – Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S.2011/2379).

Diben y Rheoliadau hyn yw estyn y ddarpariaeth i ddileu dros dro y gofyniad i baratoadau cig a fewnforir i Gymru, o sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las neu'r Swistir, gael eu rhewi'n ddwfn. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r dyddiad yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 er mwyn estyn effaith y rheoliadau hynny. Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y ddarpariaeth i ddileu'r gofyniad tan hanner nos ar 31 Rhagfyr 2021. Diwygiwyd y dyddiad yn flaenorol i 30 Medi 2021 gan Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/376).

## Gweithdrefn

Gwneud Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus o ystyried natur frys y newidiadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"O ystyried natur frys y newidiadau hyn, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus; fodd bynnag, bu ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid ledled Prydain gyda'r diwydiant Bwyd-Amaeth a chyda phartneriaid cyflenwi sydd â chyfrifoldebau dros reolaethau ar y ffin ar gyfer archwiliadau iechydol a ffytoiechydol (fel awdurdodau ffiniau lleol, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r Asiantaeth Safonau Bwydydd), ers mis Ionawr 2021."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 20 Medi 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.